# Deddf Cymwysterau Cymru 2015

**2015 dccc 5**

## RHAN 3

CYDNABOD CYRFF DYFARNU

*Meini prawf cydnabod*

### 6 Pŵer i osod meini prawf cydnabod sy'n benodol i gymhwyster

(1) Caiff Cymwysterau Cymru osod a chyhoeddi meini prawf cydnabod ("meini prawf cydnabod sy'n benodol i gymhwyster") i'w cymhwyso ganddo at ddibenion adran 9 (cydnabod corff dyfarnu mewn ffordd sy'n benodol i gymhwyster).

(2) Caiff y meini prawf wneud darpariaeth wahanol ar gyfer—

(a) disgrifiadau gwahanol o gorff dyfarnu;

(b) cymwysterau gwahanol neu ddisgrifiadau gwahanol o gymhwyster.